# COFNOD A BENDERFYNIADAU GWEITHREDOL

# Y CABINET

# DYDD LLUN, 22 IONAWR 2024

**Cabinet Members:**

Cynghorwyr: S.K.Hunt, N.Jenkins, J.Hurley, J.Hale, A.Llewelyn, W.F.Griffiths, S.Jones a/ac C.Phillips

**Swyddogion yn bresennol:**

K.Jones, N.Pearce, A.Jarrett, N.Daniel, H.Jones, J.Stevens, C.Furlow-Harris, R.Crowhurst, S.Rees, C.Owen, C.Howard, N.Blackmore, L.McAndrew, A.Thomas a/ac T.Davies

---

## 1. PENODI CADEIRYDD

Cytunwyd i benodi'r Cynghorydd S K Hunt yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

## 2. CYHOEDDIAD(AU) Y CADEIRYDD

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod ac esboniodd gan ei fod yn datgan cysylltiad â chofnod rhif 10, byddai'r Dirprwy Arweinydd, y Cynghorydd A Llewelyn yn Cadeirio'r eitem hon.

## 3. DATGANIADAU O FUDDIANNAU

Gwnaeth yr aelod canlynol ddatganiad o fudd ar ddechrau'r cyfarfod:

Y Cynghorydd S K Hunt - Cofnod rhif 10 - Cadeirydd APSE Cymru – Tai, Digartrefedd a Chymorth Cymunedol - gan fod yr adroddiad yn berthnasol i'w benodiad ei hun. Roedd yn ystyried bod y cysylltiad yn rhagfarnol, felly gadawodd y

cyfarfod ar gyfer y drafodaeth a'r bleidlais ar ôl hynny.

4. **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

Bod cofnodion cyfarfodydd blaenorol y Cabinet, a gynhaliwyd ar y dyddiadau canlynol, yn cael eu derbyn fel cofnod cywir:

- 13 Rhagfyr 2023
- 20 Rhagfyr 2023 (Arbennig)

5. **BLAENRAGLEN WAITH 2023/24**

Nodwyd y Flaenraglen Waith.

6. **PUBLIC QUESTION TIME**

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau gan y cyhoedd.

7. **HUNANASESIAD 2022-2023**

**Penderfynwyd:**

Cymeradwyo'r hunanasesiad drafft cyn ei gyhoeddi a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

I ddangos tystiolaeth fod y Cyngor yn bodloni'r ddyletswydd a nodwyd yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, 'i bob Cyngor yng Nghymru adolygu i ba raddau y mae'n bodloni'r 'gofynion cyflawniad', hynny yw i ba raddau y mae'n:
- arfer ei swyddogaethau'n effeithiol
- defnyddio ei adnoddau'n economaidd, yn effeithlon ac yn effeithiol
- sicrhau bod ei lywodraethu'n effeithiol ar gyfer sicrhau'r uchod.'

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

8. **ADRODDIAD YNGHYLCH Y DIWEDDARAF AM SEFYLLFA'R SETLIAD**

Mynegodd Aelodau’r Cabinet bryderon sylweddol ynghylch toriadau i gyllid penodol, ac anogwyd yr holl aelodau i barhau i lobïo am gyllid ychwanegol.

**Penderfynwyd:**

Nodi’r adroddiad.

9. **EITEMAU BRYS**

Oherwydd yr angen i ymdrin yn awr â'r mater a gynhwysir yng Nghofnod Rhif 10 isod, cytunodd y Cadeirydd y gellid codi hyn yn y cyfarfod heddiw fel eitem frys yn unol ag Adran 100B (4) (b) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

Rheswm:

Oherwydd yr elfen amser.

10. **CADEIRYDD APSE CYMRU – TAI, DIGARTREFEDD A CHYMORTH CYMUNEDOL**

Ar y pwynt hwn yn y cyfarfod, ailbwysleisiodd y Cynghorydd S K Hunt ei gysylltiad â'r mater hwn, a gadawodd y cyfarfod ar gyfer y drafodaeth a’r bleidlais wedi hynny. Trosglwyddwyd yr awenau i'r Cynghorydd A Llewelyn a aeth ati i gadeirio'r cyfarfod ar gyfer yr eitem hon yn unig.

**Penderfyniadau:**

1. Bydd Arweinydd y Cyngor yn gweithredu fel Cadeirydd y grŵp APSE Cymru – Tai, Digartrefedd a Chymorth Cymunedol dros dro i ddechrau, ac yn barhaol os byddai APSE Cymru'n penderfynu gwneud y grŵp APSE Cymru – Tai, Digartrefedd a Chymorth Cymunedol yn barhaol.

2. Bydd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol yn nodi swyddog fel y Prif Swyddog sy'n gysylltiedig â'r grŵp cynghori hwn.

**Rheswm dros y penderfyniadau:**

Rhoi awdurdod i Arweinydd y Cyngor weithredu fel cynrychiolydd i gorff allanol, ac awdurdodi cyfranogiad swyddogion yn yr un gwaith.

**Rhoi Penderfyniadau ar Waith:**

Bydd y penderfyniadau'n cael eu rhoi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

## 11. MYNEDIAD I GYFARFODYDD - GWAHARDD Y CYHOEDD

Ailymunodd y Cynghorydd S K Hunt â'r cyfarfod a dychwelodd at rôl y Cadeirydd.

**Penderfynwyd:**

Yn unol â Rheoliad 4(3) a (5) Offeryn Statudol 2001 Rhif 2290, gwaherddir y cyhoedd ar gyfer yr eitem fusnes ganlynol a oedd yn debygol o gynnwys datgelu gwybodaeth eithriedig fel a diffinnir ym Mharagraff 14 Rhan 4 Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

## 12. YMGYNGHORIAD Y SWYDDFA GARTREF AR LWYBRAU DIOGEL A CHYFREITHIOL

**Penderfyniadau:**

1. Cymeradwyo'r ymateb i'r ymgynghoriad, ôl rhoi sylw dyledus i'r Asesiad Effaith Integredig, (fel y nodir yn Atodiad 1 i'r adroddiad a ddosbarthwyd), a bydd y Cyngor yn cynnig ymgartrefu nifer y teuluoedd, yn 2025, fel y nodwyd yn yr adroddiad preifat a ddosbarthwyd. Nodwyd bod ymateb wedi cael ei gyflwyno i'r Swyddfa Gartref yn amodol ar benderfyniad y Cabinet, a chaiff ymateb ffurfiol ei gyflwyno wedi hynny.

2. Caiff ymateb y Cyngor ei rannu â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru/Partneriaeth Mudo Strategol Cymru a Llywodraeth Cymru.

**<u>Rheswm dros y penderfyniadau:</u>**

Er mwyn galluogi'r Cyngor i ymateb i ddogfen Ymgynghoriad y Swyddfa Gartref, ac i osod terfyn ar nifer y bobl y bydd CNPT yn ceisio eu hymgartrefu yn 2025.

**<u>Rhoi Penderfyniadau ar Waith:</u>**

Mae'r penderfyniad i'w roi ar waith ar unwaith, yn dilyn cytundeb Cadeirydd Craffu'r Cabinet.

**CADEIRYDD**